Y farn fawr
Big thinking

Ein fframwaith strategol hyd at 2015

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad.

Ein gweledigaeth

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd

Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr ac ariannwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn amcanu i fabwysiadau dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin â thegwch.

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gennych.

Rydym yn poeni am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig.

Côd stoc BIG-STRATEGICFRAMEWORK09W
Ffotograffwyr Colin Baldwin, Steve Brock, Alan Fletcher, Graham Oakes and Paula Solloway
Copïau pellach ar gael o:

E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0845 4 10 20 30
Ffôn testun 0845 6 02 16 59
Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

© Cronfa Loteri Fawr, Mehefin 2009

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from
The National Lottery®

Cynnwys

Ble rydym am fod yn 2015: O ddosbarthwr i ariannwr deallus	6
Nodweddion ein hariannu	9
Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni fel ariannwr deallus	12
Beth sy'n digwydd nesaf	16

Y stori FAWR hyd yma

- **Cefnogi Cymunedau: buddsoddwyd £2.8 miliwn mewn cymunedau ar draws Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.**
- **Grantiau Bach: dros 9,000 o grantiau bychan trwy Arian i Bawb y llynnedd yn unig.**
- **Ariannwr mwyaf y sector gwirfoddol a chymunedol: £1.6 biliwn i'r sector gwirfoddol a chymunedol ers Mehefin 2004. Mae hyn yn 77 y cant o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod hwnw.**
- **Effeithlon ac Effeithiol: dosbarthwr cost-effeithlon, wedi'i gydnabod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am allgymorth a datblygu o ansawdd uchel.**
- **Cartref ac Oddi Cartref: prif ariannwr rhyngwladol, yn cefnogi prosiectau cymunedol mewn gwledydd sy'n datblygu.**
- **Ariannwr canlyniadau: yn cael ei yrru gan y gwahaniaeth a wnaiff ein harian i unigolion a chymunedau.**
- **Sefydliad sy'n dysgu: wedi ymrwymo i fod y fwy effeithiol a rhannu ein dysg yn fwy eang er mwyn i eraill elwa.**

PETZL

Ble rydym am fod yn 2015: O ddosbarthwr i ariannwr deallus

Mae Fframwaith Strategol y Gronfa Loteri Fawr yn mynd â ni o le rydym heddiw i lle rydym am fod yn 2015. Mae'n amlinellu ein taith yn ystod y cyfnod hwn. Rydym eisoes yn fwy na dosbarthwr arian yn unig, rydym yn cynnig cefnogaeth i'r sectorau yr ydym yn eu hariannu, rydym yn gweithio gydag arianwyr eraill er mwyn datblygu a rhannu arfer arwain ac rydym yn hyrwyddo dadansoddi effaith ein hariannu ar gyfer llunwyr polisi. Mae'r Fframwaith Strategol newydd yma yn ein symud ymlaen i ddod yn ariannwr mwy effeithiol ac effeithlon – ariannwr deallus - gan sicrhau bod mwy o effaith a dylanwad yn deillio o'n gwaith.

Mae'r Fframwaith Strategol yn cyfuno yr hyn yr ydym wedi'i glywed gan ymgynghoriad Y Farn Fawr gyda'r hyn a ddysgwyd gennym o'n profiad ariannu hyd yma. Bydd yn troshaenu a llywio popeth yr ydym yn ei wneud yn y chwe blynedd nesaf.

Bydd y Fframwaith yma yn llunio a dylanwadu ar ein trefniadau ariannu a'r gweithgareddau fydd yn eu cefnogi. Byddwn yn parhau i drafod, adolygu ac adrodd ar fanylion y rhain dros y chwe blynedd nesaf, gan ddysgu o'r adborth a rhannu ein llwyddiannau ac arfer da.

Y neges a gafwyd yn glir o'n hymgynghoriad oedd bod pobl yn gwerthfawrogi addasrwydd, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd ein hariannu. Bydd hyn yn parhau'n nodwedd o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Byddwn yn ei wella lle gallwn.

Cenhadaeth y Gronfa Loteri Fawr - Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywyda'r bobl fwyaf anghenus.

Mae'n eglur o'r ymgynghoriad bod pobl o'r farn bod ein cenhadaeth yn rhoi neges gadarnhaol a pherthnasol ynglŷn â pha gyfeiriad y dylai ein hariannu fynd a beth ddylai geisio ei gyflawni. Bydd y datganiad yma yn parhau i ddarparu'r ysbrydoliaeth dros bopeth yr ydym yn ei wneud.

Tair thema ar draws y DU - Dysgu Cymunedol a chreu Cyfleoedd, Hyrwyddo Cydlynedd a Diogelwch Cymdeithasol, Hyrwyddo Lles

Mae'r tair thema yma yn sylfaen i fframwaith strategol cyffredinol y Gronfa Loteri Fawr a gytunwyd gan y Senedd. Maent wedi ein galluogi i ymateb yn hyblyg ac mewn ffordd ddeinamig i'r materion yr ydym yn ceisio helpu ein cymunedau i fynd i'r afael â hwynt.

Ein cyfrifoldeb ni yn llwyr yw cynllun ein rhaglenni a ariennir gan y Loteri a'r ffordd y mae penderfyniadau ar grantiau unigol yn cael eu gwneud, heb unrhyw ymyrraeth o'r tu allan. Er mwyn cyflenwi'r Cynllun Strategol yma yn llwyddiannus mae'n ofynnol i ni gadw'r rhyddid yma i weithredu.

Eirioli dros gydraddoldeb a datblygiad cynaliadwy

Bydd ymrwymiad i gydraddoldeb ac ymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy yn rhan annatod o'n dull gweithredu i wireddu'r canlyniadau trwy ein hariannu. Byddwn yn ceisio cyflawni canlyniadau trwy ein hariannu a fydd yn adlewyrchu'r ymrwymiadau hyn. Yn yr un modd byddwn yn dilyn ein harferion busnes ein hunain gyda'r gwerthoedd hyn wrth galon yr hyn y byddwn yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys ein hymwneud ag ymgeiswyr, deiliaid grant a budd-ddeiliaid.

Bydd ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn dod yn gynyddol bwysig nid yn unig i ni ein hunain ond hefyd i bawb yr ydym yn eu hariannu, wrth i ni weld effaith cynyddol newid hinsawdd. Byddwn yn gwneud datblygiad cynaliadwy yn rhan anhepgor o'n hariannu er mwyn helpu i wella ansawdd bywyd i bawb yn y presennol ac am genedlaethau i ddod.

Fel ariannwr sy'n ceisio helpu cymunedau a'r rhai sydd yn yr angen mwyaf mae'n rhaid i ni fod yn egnïol wrth roi ein fframwaith cydraddoldeb ar waith er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfle i elwa o'n hariannu.

Eirioli ar ran cymunedau er mwyn iddynt ffynnu, bod yn fwy cadarn, cynhwysol a delio â'r materion sy'n bwysig iddynt hwy.

Erbyn 2015, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cael ei weld fel eiriolwr cymunedau a phobl dan anfantais, lle bynnag y bônt. Diffinnir rhai cymunedau gan eu lleoliad; diffinnir eraill gan anghenion cyffredin pobl sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol. Rydym yn bryderus am y ddau.

Rydym yn gwybod bod angen yn bodoli ym mron bob cymuned. O ganlyniad i'r dirywiad yn yr hinsawdd economaidd, rydym yn disgwyl gweld cymunedau'n dod o dan bwysau cynyddol yn ystod y cyfnod hwn. Ni fyddwn yn cael ein cyfyngu gan fformwlâu caeth ar gyfer asesu amddifadedd economaidd, ond byddwn yn effro i'r ffyrdd gwahanol y mae angen yn amlygu ei hun. Byddwn yn ddigon hyblyg i ymyrryd yn effeithiol a chydag effaith gwirioneddol. Mae hyn yn ymwneud â deall cymunedau ac mae'n cynnwys y gallu i adnabod pocedi o angen dwys neu angen sydd wedi'i wasgaru ar draws ardaloedd sydd fel arall yn ymddangos yn ffyniannus.

Mae maint a chyrhaeddiad y Gronfa Loteri Fawr yn caniatáu i ni gyfuno ffocws ar anfantais gyda gallu

i gynnig rhywbeth i bob cymuned. Mae'r Loteri yn cael ei chwarae ar draws y DU gan bobl o bob rhan o fywyd, a byddwn yn sicrhau bod ein hariannu yn adlewyrchu'r disgwyliad dilys y dylai pob cymuned gael cyfle i elwa o'n hariannu.

O ganlyniad i'n hymgynghoriad byddwn yn canolbwyntio ar y rhai hynny sy'n wynebu trawsnewidiadau anodd yn eu bywydau neu sy'n unig. Mae bod yn unig a chyfnodau o drawsnewid mewn bywyd yn cael eu gweld fel nodweddion angen cyffredin gennym ac erbyn 2015 rydym am ddefnyddio ein hariannu i gael effaith canfyddadwy ar leihau problemau sy'n gysylltiedig â'r rhain. Mannau cychwyn trafodaeth yn unig yw'r rhain fodd bynnag, am union natur angen ar lefel cymunedau ac unigolion. Trwy ymwneud â'r rhai sy'n deall y darlun mwy manwl orau yma, byddwn wedi defnyddio ein hariannu i helpu cymunedau, teuluoedd ac unigolion i adeiladu, ar gyfer eu hunain, y gymdeithas ddeinamig a chadarn y maent yn dymuno byw ynddi.

Bydd ariannu'r Gronfa Loteri Fawr wedi cyfrannu at gymdeithas ddinesig gryfach, lle mae mwy o bobl, yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol, a lle mae'r rhai sydd yn yr angen mwyaf yn cael cefnogaeth briodol. Bydd pobl a chymunedau yn fwy gwydn, dyfeisgar a mentrus – yn fwy abl i gydnabod eu hanghenion eu hunain, a threfnu eu hunain i gwrdd â'r anghenion hynny.

Defnyddio ein dysgu i ddylanwadu ar bolisi ac arfer cyhoeddus

Ein nod yw defnyddio ein dysgu i lywio datblygiad ac arfer polisi cyhoeddus ar draws y DU.

Mae gallu'r Gronfa Loteri Fawr i weithio'n hyblyg er mwyn llenwi bylchau, a sefyllfa lle rydym yn pontio rhwng sawl sector, yn cynnig persbectif unigryw i ni ar angen a newid. Byddwn yn gwneud mwy i geisio canfod atebion, dylanwadu ar arfer, a dod â phartïon at ei gilydd – nid yn unig trwy ein hariannu ond trwy ein heiriolaeth, rhwydweithiau a chyflafareddu.

Arfogi cymunedau i ddelio â'r newidiadau ar sialensiau y maent yn eu hwynebu mewn bywyd modern

Bydd y cymunedau yr ydym yn gweithio a buddsoddi ynddynt yn gweld y gwahaniaeth y mae arian y Loteri wedi'i wneud yn eu hardal. Mae'r cymunedau hyn yn debygol o fod wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn cyflawni'r gwahaniaeth hynny drostynt eu hunain. Byddant yn deall yn well sut i gael mynediad at yr ariannu, ac yn teimlo eu bod wedi'u harfogi a'u hymrymhau i wneud hynny. Er enghraifft, yn y gorffennol rydym wedi cefnogi sawl prosiect sy'n hyrwyddo gwirfoddoli, a byddem yn disgwyl parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Adlewyrchu amrywiaeth y DU

Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn adlewyrchu amrywiaeth y DU yn y ffordd y mae'n ariannu. Bu pwyslais y Gronfa Loteri Fawr ar gymryd penderfyniadau ar y lefel mwyaf addas – boed yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol, wedi bod yn gonglfaen i lawer o'i lwyddiannau ers 2004. Mae cofleidio cryfder datganoli mewn ymateb i anghenion cymunedol ar draws y DU yn rhag-amod i fod yn ariannwr deallus.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar ein safle fel corff sy'n gweithredu draws y DU, trwy symbylu, dathlu a hyrwyddo llwyddiannau a dealltwriaeth sy'n deillio o'n hariannu yn y pedair gwlad. Byddwn yn creu'r cysylltiadau, lle mae hynny'n werth chweil, ac yn darparu ariannu ar lefel DU yn ôl yr angen.

Nodweddion ein hariannu

Ffocws ar hyd oes y cylch ariannu

Er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf wrth ariannu rydym yn gweld bod angen i ni ganolbwyntio ar gylch oes cyfan ein hariannu: o gefnogaeth cyn cyflwyno cais, i ymwneud â phrosiectau a chipio a defnyddio dysgu y tu hwnt i hyd oes ein grantiau.

Ariannu ychwanegol, gyda safle clir ac unigryw yn y farchnad

Bydd ein hariannu yn wahanol i'r hyn a ddarperir gan y Llywodraeth a'r sector statudol. Byddwn yn cydweddu ac ychwanegu gwerth i waith eraill ar lefel leol, nid ei ddyblygu neu ei ddisodli. Byddwn yn chwilio am achosion a chymunedau y mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod mewn angen, ac yn eu helpu.

Y sector gwirfoddol a chymunedol yw ein prif bartner cyflwyno, ac rydym wedi gosod y targed y bydd yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n harian rhwng nawr a 2015

Mae gallu'r sector gwirfoddol a chymunedol i gyrraedd y rhai sydd yn yr angen mwyaf, a gweithio gyda chymunedau sy'n aml yn cael gwasanaeth gwael gan ddarpariaeth prif ffrwd, yn eu gwneud yn bartner naturiol a phrif bartner i'r Gronfa Loteri Fawr. Rydym

yn gwybod bod angen sylfaen ariannu sefydlog a diogel ar y sector yma er mwyn sicrhau bod hyn yn gallu parhau.

Byddwn felly yn ymestyn ein hymrwymiad i'r sector Gwirfoddol a Chymunedol - gan godi'r gyfran o ariannu y gallant ei ddisgwyl gennym, ac ymestyn hyn ar gyfer hyd y Fframwaith Strategol yma. Byddwn yn pennu targed mai'r sector Gwirfoddol a Chymunedol fydd yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu ar draws y DU yn ystod y cyfnod hyd at 2015.

Yn gyfochrog â'r ymrwymiad yma, bydd ein buddsoddiad parhaus yn cefnogi sector cryfach sy'n fwy abl i gefnogi ac ymrymhau pob cymuned, ond yn arbennig cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

Annog partneriaethau i gryfhau cymdeithas ddinesig

Er mai'r sector Gwirfoddol a Chymunedol fydd yn parhau i dderbyn y rhan fwyaf o'n hariannu, bydd llawer o sefydliadau y tu allan i'r sector yn arwyddocaol wrth gyflwyno ein canlyniadau. Ni fyddwn yn gorfodi partneriaethau, ond byddwn yn annog creu cysylltiadau rhwng sefydliadau sy'n gweithio i gyflwyno'r un amcanion. Bydd y mwyafrif o'n hariannu a gyflwynir trwy gyrff nad ydynt yn rhan o'r sector Gwirfoddol a Chymunedol yn digwydd mewn partneriaeth â'r sector Gwirfoddol a Chymunedol, neu o fudd uniongyrchol i gymdeithas ddinesig gryfach.

Mae'n debygol y bydd llawer o'r prosiectau sy'n cael eu hariannu gennym yn ceisio cyflwyno eu canlyniadau trwy weithio mewn partneriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cael eu harwain gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn partneriaeth â chyrff sector Gwirfoddol a Chymunedol neu gyrff sector cyhoeddus eraill. Ar adegau efallai y byddant hefyd yn dewis gweithio gyda phartneriaid sector preifat ac, ar yr amod bod hynny'n briodol i gyflwyno'r canlyniadau, rydym yn awyddus i archwilio hyn.

Rhannu dysgu o lwyddiannau a methiannau ein hariannu gydag arianwyr eraill

Byddwn yn cael effaith uniongyrchol trwy ein hariannu, ond byddwn yn ychwanegu gwerth i hyn trwy gymhwyso'r dysgu a'r wybodaeth sy'n deillio o'n rhaglennu ariannu i'n gwaith ein hunain a gwaith eraill. Byddwn yn ychwanegu at hyn trwy weithio gydag arianwyr eraill er mwyn rhannu arfer gorau a hyrwyddo dulliau gweithredu ariannu gwell.

Cynnig portffolio ariannu cymysg, gan gydweddu â gwaith eraill, ond gyda grantiau parhau i fod yn brif fusnes i ni.

Byddwn yn datblygu dulliau gweithredu ariannu newydd a fydd yn gyflenwol ac yn cael eu datblygu mewn partneriaeth. Ni fyddwn yn sefydlu systemau ein hunain yn syth i gyflwyno benthyciadau'n uniongyrchol, ond lle dywed ein budd-ddeiliaid wrthym y byddai hynny'n ychwanegu gwerth byddwn yn chwilio am bartneriaid i'n helpu i gyflwyno'r rhain.

Byddwn yn parhau i gynnig cymysgedd o ariannu. Bydd hyn o hyd yn cynnwys grantiau bach, ariannu agored a dulliau wedi'u targedu. Rydym yn gwybod y gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr ym mhob cymuned. Rydym hefyd yn gwybod bod darparu hyblygrwydd ar gyfer cymunedau i ddatblygu eu hymatebion eu hunain yn eu hamser eu hunain yn meithrin creadigrwydd, arloesedd a pherchnogaeth. Dengys ein dysgu y dylem wneud buddsoddiadau strategol mewn sector, cymuned neu bwnc penodol er mwyn cyflwyno canlyniadau penodol, lle nad yw'r rhain yn cael eu cyflawni gan eraill. Byddwn yn tynnu ar ymchwil arbenigol er mwyn pennu a oes yno anawsterau penodol, neu broblemau newydd, lle gallai dulliau gweithredu arloesol wella'r canlyniadau. Os oes yno elfennau o'r fath, byddwn yn ysgogi sefydliadau i ganfod dulliau gweithredu newydd. Os yw ein hymchwil yn datgelu bod dulliau gweithredu eisoes yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â phroblemau sy'n dod

i'r amlwg, yna byddwn yn ystyried ariannu penodol i'w hatgynhyrchu.

Byddwn yn parhau i wneud gwaith nad yw'n gysylltiedig â'r Loteri lle gwelwn ei fod yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu hariannu a lle mae'n gweddu gyda'n cenhadaeth a'n gweledigaeth. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth lle bynnag y mae hynny'n bosib, gan gynnwys chwilio am rai sydd mewn gwell sefyllfa i gyflwyno na ni'n hunain. Byddwn yn gwrando ar ein budd-ddeiliaid - ni fyddwn yn dilyn dulliau gweithredu lle nad oes gennym eu cefnogaeth ond byddwn yn rhoi ein systemau a'n sgiliau at wasanaeth rhai sy'n rhannu ein cenhadaeth.

Gosod blaenoriaethau, gwneud penderfyniadau, a chyflwyno ein hariannu mor agos i'r buddiolwr â phosib

Byddwn yn adeiladu ar ein rhwydweithiau cryf a sefydledig ar lefel gwlad a rhanbarth. Bydd ein pwyllgorau yn y gwelydd , gan weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, yn parhau i fwynhau'r annibyniaeth i gynllunio a chyflwyno eu hariannu gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn tynnu ar ein gwybodaeth ddatganoledig a dysgu er mwyn lledaenu arfer da ledled y DU.

Byddwn yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cymryd gyda dealltwriaeth o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Bydd yno gyfle ychwanegol i gymryd penderfyniadau ar lefel leol. Bydd ymwneud cymunedol a defnyddwyr yn parhau i fod wrth galon pob prosiect a ariennir gennym.

Ariannu sydd wedi'i gefnogi â'i ysbrydoli gan y cymunedau rydym yn ceisio eu helpu

Mae ymwneud y cyhoedd â'n gwaith yn dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r gwaith da y mae arian y Loteri yn gallu ei wneud ac yn annog pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau. Yn y dyfodol, felly bydd ymwneud y cyhoedd yn fwy eang - gyda chyfleoedd ar gyfer ymwneud uniongyrchol mewn lleoliad blaenoriaeth a gwneud penderfyniadau ar draws mwy o'n hariannu. Byddwn yn ceisio cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid a all ein helpu i gysylltu â chymunedau er mwyn ariannu cyfleoedd; hyrwyddo gwaith prosiectau a ariennir i gynulleidfa ehangach ac annog trafodaeth ehangach am effaith ein hariannu. Fel ar hyn o bryd, bydd mesurau diogelwch cryf ar waith i sicrhau bod ansawdd ac ystod y prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn cael eu hamddiffyn..

Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni fel ariannwr deallus

Byddwn yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gofal cwsmer

Rydym yn cydnabod bod ein ffordd o ymddwyn fel ariannwr yn bwysig i'n budd-ddeiliaid ac yn cael effaith gwirioneddol ar lwyddiant ein cwsmeriaid. Cafodd negeseuon cryf eu cyfleu gan Y Farn Fawr ynglŷn â beth rydym yn ei wneud yn dda a sut y gallwn wella. Dyma beth y gallwch ddisgwyl gennym ni fel ariannwr deallus dros y chwe blynedd nesaf.

Ariannwr effeithlon

Bydd cael cryn gymaint o'r arian ag sy'n bosibl i'r rhai sydd ei angen fwyaf yn flaenoriaeth i ni. Golyga hynny ymdrechu i gynnal ein safle, a gafodd ei gydnabod eisoes gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel ariannwr effeithlon gwerth uchel. Ein nod yw bod y dosbarthwr mwyaf effeithlon o arian loteri. Byddwn yn parhau i ganfod arbedion effeithlonrwydd sylweddol trwy gydol cyfnod y Fframwaith. Rydym yn disgwyl y bydd yr holl wario ar ein costau gweithredol yn cyfrannu'n amlwg at effeithiolrwydd ein hariannu ac ansawdd profiad ein cwsmeriaid.

Canlyniadau: beth rydym am ei gyflawni

Yn gyntaf ac yn bennaf, bydd ein hariannu yn cael effaith ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau. Gwireddir y canlyniadau mwyaf cadarnhaol pan mae pobl eu hunain yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r prosiectau sy'n eu helpu.

Byddwn yn glir ynglŷn â'r canlyniadau yr ydym am eu cyflawni a'u cynnal trwy ein hariannu. Byddwn yn dangos sut y maent yn cyfateb gyda'n dealltwriaeth o angen, ac yn eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau'n gyfredol. Erbyn 2015, bydd effaith cronnus ein hariannu wedi dod â ni'n agosach at y weledigaeth a ddisgrifiwyd ym mharagraffau agoriadol y Fframwaith Strategol yma.

Byddwn yn cydnabod potensial, a chyfyngiadau ein hariannu – gan ganolbwyntio ar feysydd lle gallwn gael y dylanwad mwyaf arnynt. Byddwn yn sicrhau, yn benodol, y gallwn wneud cyfraniad mesuradwy i dri phwnc a fydd yn rhedeg fel llinyn cyffredin trwy lawer o'n gweithgaredd: lleihau unigedd, helpu pobl trwy gyfnodau o drawsnewid allweddol (fe allai'r rhain gynnwys gadael gofal, colli swydd, ymdopi â phrofedigaeth) a chynorthwyo mwy o bobl mewn mwy o gymunedau i gael eu hymbweru a'u galluogi i gymryd rhan.

Byddwn yn arfarnu a rhannu'r dysgu am y canlyniadau yr ydym yn eu cyflawni a'u cynnal trwy ein rhaglenni. Byddwn yn sefydlu strategaethau dysgu, eiriolaeth, rhwydweithio a chefnogaeth arall er mwyn cyflawni hyn.

Byddwn yn rhoi cefnogaeth i ymgeiswyr a deiliaid grant wrth ddeall, mynegi a mesur y canlyniadau hyn, gan ganiatáu digon o hyblygrwydd er mwyn addasu i newid yn amgylchiadau'r angen.

Arloesedd a chynaliadwyedd

Rydym am annog dulliau gweithredu newydd a dychmygus er mwyn canfod atebion i broblemau hir hoedlog. Rydym hefyd yn cydnabod serch hynny rhinweddau dulliau gweithredu sydd wedi sefydlu eu hunain ac sydd wedi bod yn effeithiol wrth gyflwyno newid i gymunedau. Byddwn felly yn glir wrth nodi ymhle y tybiwn y mae angen atebion arloesol a byddwn yn cydnabod y gall arbrofion o'r fath fethu weithiau. Er hynny maent yn rhoi tir ffrwythlon i ni ar gyfer dysgu ac maent yn fodd i ni feithrin newid beiddgar. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ddiedifar o gadarnhaol wrth gymryd risg i ymdrin â materion amhoblogaidd neu heriol sydd wedi eu hesgeuluso gan arianwyr eraill, lle mae hynny'n gweddu i'n cenhadaeth.

Ni all cymorth ariannol y Gronfa Loteri Fawr fod yn ateb hir dymor i sefydliadau. Er hynny, rydym yn benderfynol o gael yr effaith mwyaf posib o'n hymyriadau. Rydym am gynnal effeithiau a chanlyniadau cadarnhaol y tu hwnt i hyd oes ein hariannu a helpu i sicrhau bod yno adeiladu'n digwydd ar y newidiadau. Trwy gymryd yr agwedd hir dymor yma, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn ansawdd bywydau pobl a'u gallu i ddelio ag amseroedd anodd.

Hyblygrwydd ac ymatebolrwydd

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar botensial ariannu'r Loteri, gan weithio'n hyblyg, ymateb i adborth, a sicrhau bod ein systemau, prosesau ac, wrth gwrs, ein pobl yn darparu'r gwasanaeth gorau posib i gwsmeriaid. Gan gydnabod y bydd y galw bron yn ddieithriad yn fwy na'r cyflenwad, byddwn yn ceisio lleihau'r ymdrech diangen ar ran ymgeiswyr, gan wneud penderfyniadau mor gyflym â phosib a chyfathrebu hynny'n glir. Bydd gwasanaeth mwy personol yn caniatáu i ymgeiswyr a deiliaid grant olrhain ceisiadau a thaliadau, a darparu gwybodaeth i ni mewn un fformat syml, hwylus.

Mae ein ymgynghoriad Y Farn Fawr wedi cynnig cyfle i ymwneud ag unigolion a sefydliadau o bob cefndir ac mae wedi rhoi stôr o wybodaeth i ni er mwyn ystyried cyfeiriad strategol a darpariaeth ymarferol ein hariannu. Nid yw ein hymwneud yn gorffen ar ddiwedd yr ymgynghoriad oherwydd bydd yn parhau mewn sawl ffordd yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae gennym gyfle i unioni ein systemau gwaelodol gyda'r uchelgais newydd a ffres a nodir yn y Fframwaith yma, er mwyn sefydlu llif di-dor o'r strategaeth i gyflwyno.

Adeiladu gallu ac ymwneud

Byddwn yn cefnogi ymgeiswyr a deiliad grant - yn gymesur â maint y dyfarniad - er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad yn cael yr effaith mwyaf posib. Byddwn yn cynnig cefnogaeth cyn cyflwyno cais - wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol neu trwy bartneriaid - lle mae hyn yn gwella cyrhaeddiad neu ansawdd rhaglen. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn ceisio targedu hyn yn benodol at gymunedau sydd wedi colli allan ar ariannu yn y gorffennol, a'u helpu i ddatblygu'r gallu gofynnol ar gyfer ein prosesau asesu a rheoli grant. Byddwn hefyd yn gweithio'n agosach gyda deiliaid grant lle rydym yn barnu bod yno gyfle i adeiladu ar ein buddsoddiad a sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cynnal y tu hwnt i hyd oes ein hariannu. Rydym yn gwybod bod sefydliadau cryf sy'n cael eu rhedeg gan unigolion medrus mewn sefyllfa gref i gyflwyno newid, ac rydym am sicrhau bod y rhai sy'n derbyn arian gennym yn cael eu cefnogi i adeiladu eu gallu at y diben hynny.

Cydweithredu

Ein dyhead yw arwain y maes mewn arfer ariannu sy'n gwella'n barhaus. Byddwn yn archwilio potensial i integreiddio neu lyfnhau ein hariannu gydag ariannu sefydliadau eraill er mwyn creu ffrydiau ariannu cydlynus. Byddwn yn ceisio unioni systemau a gweithdrefnau, gan wneud cyflwyno cais am ariannu, darparu gwybodaeth monitro, a delio gydag arianwyr yn brofiad symlach a mwy cyson.

Wrth gynllunio rhaglenni ariannu byddwn yn chwilio am bartneriaid addas i ddatblygu'r rhaglen fel bod yr effaith terfynol yn amserol, wedi'i gyfeirio'n dda ac yn gynaliadwy. Byddwn hefyd yn chwilio am bartneriaid a fydd yn helpu i sicrhau budd parhaol o'n rhaglenni efallai trwy ariannu parhaus neu gefnogaeth neu drwy adeiladu ar ddysgu o'r rhaglen.

Ym mhob un o'n rhaglenni byddwn yn annog sefydliadau i fod yn ymwybodol o gyrff eraill y gallent elwa o gydweithio â hwy. Byddwn yn gwerthfawrogi'r rhai sy'n meddu trefniadau cydweithredu effeithiol a fydd yn gwella'r canlyniadau. Byddwn hefyd yn archwilio wrth ddatblygu rhaglenni i weld a oes angen dulliau mwy ffurfiol o weithio ar y cyd yng nghyd-destun gwasanaethau penodol. Lle gwelir yr angen yma, byddwn yn gwneud mwy er mwyn helpu i hwyluso gweithio ar y cyd esmwyth.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Hyderwn y bydd y Fframwaith Strategol yma yn rhoi syniad da i chi o'r cyfeiriad yr ydym am fynd â'r Gronfa Loteri Fawr dros y chwe blynedd nesaf. Rydym am barhau i drafod ein blaenoriaethau a'n cyfeiriad gyda chi. Rydym am i chi ein dal yn atebol am y graddau yr ydym yn cyflwyno'r uchod. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r syniadau a roddwyd gennych dros gyfnod yr ymgynghoriad yn arwain at gynhyrchu'r fframwaith yma. Hyderwn hefyd ei fod yn cynrychioli eich dyheadau chi i ni fel ariannwr.

Man cychwyn yn unig yw hyn wrth i ni drafod a phennu ein cyfeiriad newydd gyda chi. Byddwn yn cynhyrchu amlinelliad o'r ariannu sy'n sail i'r fframwaith strategol yma ar gyfer y DU ac ym mhob un o'r pedair gwlad – Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Camau Nesaf: Y DU, Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

DU

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i ymrwymo i redeg rhaglenni Prydain gyfan. Rydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd parhâd o'r Rhaglen Ryngwladol, sy'n ariannu sefydliadau sydd wedi ei lleoli yn y DU sy'n gweithio dramor. Rydym wedi ymgynghori ar hyn eisoes a byddwn yn cyhoeddi manylion yn fuan. Bydd rhaglenni eraill Prydain gyfan yn cael eu hystyried gan Fwrdd Prydeinig y Gronfa Loteri Fawr yn ystod y misoedd nesaf a byddant yn cael ei lansio o 2010 ymlaen.

Lloegr

Yn ystod 2009/2010, byddwn yn parhau i gyflwyno ein rhaglenni agored poblogaidd Reaching Communities ac Arian i Bawb. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi mentrau ar raddfa lai yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys rhai a fwriadwyd i helpu cymunedau i ymdopi ag effeithiau'r dirwasgiad.

Yn gyffredinol roedd Y Farn Fawr yn cymeradwyo ein cynigion i ddatblygu arddulliau ariannu agored, ariannu cymunedol ac ariannu wedi'i dargedu am y cyfnod hyd at 2015. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynnig ariannu o dan y categorïau hyn. Gwneir hyn trwy weithio gyda phartneriaid ar lefel cenedlaethol a thrwy ein swyddfeydd rhanbarthol. Bydd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar y canlyniadau yr ydym am eu cyflawni hyd at 2015 a'r arddull a fyddai'n cyflawni'r canlyniadau hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Byddwn yn parhau i eirioli dros achos y sector gwirfoddol a chymunedol gan geisio gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl. Byddwn yn lansio ein portffolio ariannu newydd yn 2010.

Gogledd Iwerddon

Byddwn yn ymgynghori a'n budd-ddeiliaid yn ystod Hydref 2009, wrth i ni ddatblygu ein cylch nesaf o raglenni (yn unol â'n dyletswyddau o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998). Yn gynnar yn 2010 byddwn yn cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer cam cyntaf rhaglenni ariannu ar gyfer y cyfnod 2009-2015. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2009/10) byddwn yn ymrwymo i ariannu nifer o brosiectau gyda chanllawiau penodol sy'n adlewyrchu'r hinsawdd cymdeithasol economaidd cyfredol. Mae rhaglenni Arian i Bawb a BIG DEAL yn agored ar gyfer ceisiadau.

Yr Alban
Yn gyffredinol roedd Y Farn Fawr yn yr Alban yn cymeradwyo ein dull gweithredu gyda golwg ar Investing in Communities, y portffolio ariannu trawsbynciol a weithredwyd gennym yn Yr Alban ers 2006. Rydym hefyd o'r farn bod cydlynedd a sefydlogrwydd yn bwysig, ac felly byddwn yn adeiladu ar Investing in Communities, gan wella ac ail-ffocysu lle mae angen er mwyn ystyried anghenion a blaenoriaethau ein cymunedau. Byddwn yn gwneud hyn mewn dialog â'n budd-ddeiliaid a'n cwsmeriaid, gan adlewyrchu'r cyfarwyddiadau polisi a roddwyd i ni gan Weinidogion yr Alban, gyda'r bwriad o dderbyn ceisiadau erbyn Mehefin 2010.

Yn y cyfamser, mae ariannu ar gael trwy ein cynllun poblogaidd ar gyfer grantiau bychan Arian i Bawb, sy'n darparu ariannu o hyd at £10,000 am ystod eang o weithgaredd cymunedol a gwirfoddol. Bydd Investing in Ideas, ein cronfa ddatblygu syniadau, yn parhau i gefnogi archwilio a phrofi syniadau newydd, gyda grantiau o hyd at £10,000. Bydd ein rhaglen hygyrch Communities 2014 yn parhau i gynnig grantiau o hyd at £1,000 am brosiectau sylfaenol sy'n hyrwyddo gweithgaredd corfforol neu wirfoddoli yn gysylltiedig â chwaraeon mewn cymunedau lleol, yn y cyfnod sy'n arwain at Gemau'r Gymanwlad 2014.

Cymru
Yng Nghymru mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau perthnasedd ein portffolio o raglenni arfaethedig y dyfodol i anghenion penodol cymdeithas Cymru, ac mae wedi rhoi mandad clir i ni symud ymlaen. Gan weithio o fewn Fframwaith Strategol cyffredinol y DU byddwn felly yn:

- cychwyn, ar ein portffolio newydd gyda Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, yn ddiweddarach eleni y byddwn yn ei lansio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
- dilyn hyn gyda rhaglen wedi'i hanelu at leihau tlodi ac unigedd ymysg pobl hŷn
- ac yna lansio rhaglenni i hyrwyddo llais y dinesydd a lleihau effaith newid hinsawdd.

Byddwn yn parhau i ymateb i anghenion cymunedau Cymru trwy raglen newydd sy'n ymateb i alw a fydd yn cael ei lansio yn 2010. Er y bydd yn debyg i raglen gyfredol Pawb a'i Le, byddwn yn casglu gwybodaeth ar y prosiectau a'r meysydd yr ydym yn eu hariannu ac yn gweithio'n agos gyda'n budd-ddeiliaid i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ein rhaglen yn llwyddiannus i'r rhai sydd yn yr angen mwyaf. Byddwn hefyd yn sefydlu Cronfa Arloesedd i gefnogi arloesedd cymdeithasol a fydd yn cydweddu â'r gefnogaeth a ddarperir ar lefel y DU, ac yn ymdrin yn benodol a chyd-destun cymdeithasol a diwylliannol Cymru. I wneud hyn byddwn yn gweithio gyda budd-ddeiliaid, arbenigwyr a llunwyr polisi, ac yn adolygu arfer da er mwyn llywio ein barn.

Byddwn yn parhau i groesawu ceisiadau am ariannu wrth i ni ddatblygu ein rhaglenni newydd, trwy ein cynllun grantiau bach, Arian i Bawb, gyda grantiau o hyd at £5,000; a'n rhaglen Pawb a'i Le ar gyfer grantiau mwy i brosiectau sy'n cefnogi amrediad eang o weithredu cydlynus gan bobl er mwyn gwneud eu cymunedau yn fannau gwell i fyw.

Nodiadau